**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**27ain Medi 2010**

**DATGANIAD O GYFRIFON 2009-10**
**A LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2009-10 sydd eisoes wedi eu harchwilio, er cymeradwyaeth y Pwyllgor.

2 Cyflwynwyd y cyfrifon i'r Panel Gweithredol ar 20fed Medi 2010. Mae cyflwyno'r cyfrifon i'r ddau bwyllgor yn sicrhau fod holl Aelodau'r Awdurdod wedi cael cyfle i fwrw golwg a gwneud sylwadau arnynt. Bydd unrhyw sylwadau gan y Panel Gweithredol yn cael eu cyflwyno ar lafar yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio.

## Gwybodaeth

3 Yn y blynyddoedd a fu, byddai'r Datganiad drafft o Gyfrifon wedi cael ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod llawn ym mis Mehefin, ond oherwydd newidiadau yn y ddeddfwriaeth – Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2010 – nid yw'n ofyniad bellach i geisio cymeradwyaeth yr Aelodau cyn i'r cyfrifon gael eu harchwilio. Fodd bynnag, mae'n parhau'n ofynnol fod y cyfrifon archwiliedig yn cael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 30ain Medi. Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig am gymeradwyo'r cyfrifon i'r Pwyllgor Archwilio.

4 Yn lle'r cyfrifon drafft, derbyniodd yr Aelodau adroddiad ar Berfformiad Ariannol 2009-10 a oedd yn nodi'r gwir wariant am y flwyddyn o'i gymharu â'r gyllideb, a cheisiwyd cymeradwyaeth yr Aelodau i neilltuo arian o'r tanwariant i'r cronfeydd wrth gefn a'r darpariaethau.

## Ailbrisio Asedau

5 Yn ôl y system cyfrifo cyfalaf a amlinellir yn y Cod Ymarfer, a gynhyrchir gan CIPFA, ac er mwyn cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol 15, mae'n rhaid i'r Awdurdod ailbrisio ei holl asedau yn ôl eu gwerth cyfredol; rhaid gwneud hyn o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Er mwyn cydymffurfio â'r Cod cyflogwyd cwmni priswyr, Wilks Head and Eve, i ymgymryd â'r gwaith ailbrisio yn 2009-10. Mae'r prisiau newydd wedi eu cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer 2009-10. Mae rhestr o'r asedau a'r newid mewn prisiau wedi eu cynnwys yn Atodiad A.

## Newidiadau wedi Archwiliad

6 Mae'r cyfrifon bellach wedi cael eu harchwilio gan yr Archwilydd a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac maent wedi eu diwygio yn unol â chanfyddiadau'r archwiliad a'r trafodaethau a gafwyd wedi hynny ynglŷn ag ymdriniaeth gyfrifo, diffiniadau a chyflwyno eitemau penodol o fewn y cyfrifon.

7 Mae dadansoddiad manwl o'r camddatganiadau sydd wedi eu cywiro, - y rhai a nodwyd yn y cyfrifon drafft - yn rhan o'r adroddiad ISA260 dan y teitl 'Archwiliad o Ddatganiadau Cyfrifyddu – Adroddiad i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu' a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio gyda'r cyfrifon. Dyma grynodeb o'r newidiadau.

a) Ail-gategoreiddio dyledwyr rhwng Awdurdodau Lleol ac adrannau'r Llywodraeth, £56k;
b) Rhagdaliad a ddylai fod wedi cael ei gynnwys ar ddiwedd y flwyddyn, £42k;
c) Nodi'r trafodion ar yr ailbrisio Tir ac Adeiladau yn unigol, gan arwain at £1.99m o gostau lleihad mewn gwerth i'r cyfrif Incwm a Gwariant;
d) Cywiro'r modd y nodwyd yr asedau sefydlog yn yr ailbrisio yn ystod y flwyddyn, gan gario drosodd y dibrisiad o £1.5m;

e) Mae'r tabl yn Atodiad B yn nodi'r sefyllfa wreiddiol o ran y cronfeydd wrth gefn a'r darpariaethau fel y cawsant eu cymeradwyo gan yr Aelodau yn yr adroddiad ar Berfformiad Ariannol ac yn y cyfrifon drafft a'r sefyllfa wedi'r archwiliad.

8 Mae'r ddarpariaeth ôl-dâl i ddiffoddwyr tân rhan amser wedi ei leihau £100,000 oherwydd gwybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd yn ystod yr archwiliad ynglŷn â'r ddyled â ddisgwylir. Mae'r £100,000 wedi ei symud i gronfa wrth gefn i ddelio â chostau all godi oherwydd hawliau tâl cyfartal gan ddiffoddwyr tân. Mae'r ddarpariaeth a roddwyd i'r neilltu ar gyfer Gwerthusiad Swyddi wedi ei symud i gronfa wrth gefn yn dilyn trafodaeth gyda'r archwilwyr, - credent nad oedd y ddarpariaeth yn cwrdd â'r diffiniad a amlinellir yn FRS12 (mae gan yr Awdurdod ddyletswydd cyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol). Mae swm ychwanegol o £42,000 wedi ei roi i'r neilltu yn y Gronfa wrth Gefn ar gyfer gwaith Gweithredol, i ddelio a rhai costau unigryw yn ystod y flwyddyn ee o ganlyniad i ailstrwythuro'r amserlen taliadau ar gyfer y rhwydwaith cyfathrebiadau.

## Llythyr Cynrychiolaeth

9 Ynghlwm â'r adroddiad hwn (atodiad C), mae copi o ohebiaeth rhwng yr Archwiliwr Allanol a mi ynglŷn â'r archwiliad o'r datganiad cyfrifon. Mae'n esbonio'r rheswm am y llythyr cynrychiolaeth.

## Argymhelliad

10 Argymhellir fod Aelodau yn cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon 2009-10 ac yn cydnabod y Llythyr Cynrychiolaeth a anfonwyd at yr Archwiliwr Allanol.

Atodiad B

| Cynllun | Balans Agoriadol 01 Ebrill 09<br><br>£ | Symudiad Gwreiddiol 2009-10<br><br>£ | Balans Cau Gwreiddiol<br><br>31 Mawrth 10<br>£ | Balans Cau Newydd yn dilyn yr Archwilliad<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| **Darpariaethau** | | | | |
| Ôl-dal Pensiwn | 50,000 | -50,000 | 0 | 0 |
| Pensiwn Salwch | 264,937 | -24,937 | 240,000 | 240,000 |
| Ôl-dâl diffoddwyr tân rhan amser | 200,000 | 306,565 | 506,565 | 406,565 |
| Gwerthusiad swyddi | 0 | 85,467 | 85,467 | 0 |
| **Cronfeydd wrth gefn** | | | | |
| Costau gweithwyr cyllideb 10-11 | 0 | 128,000 | 128,000 | 128,000 |
| Gwerthusiad Swyddi | 0 | 0 | 0 | 85,467 |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer gwaith gweithredol | 0 | 63,383 | 63,383 | 205,047 |
| **CYFANSYMIAU** | | | **1,023,415** | **1,065,079** |